

---

# Cyfathrebu Agored: Galluogi pobl i rannu data â gwasanaethau arloesol

---

## **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 4 Awst 2020

Dyddiad cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 10 Tachwedd 2020

# 1. Trosolwg

**Ar draws yr economi, mae gwell technoleg a'r gallu i gasglu mwy o ddata yn galluogi cwmnïau i arloesi a chynnig gwasanaethau newydd. Mae arnom eisiau aros ar flaen y gad yn y datblygiadau hyn i sicrhau bod data ac arloesedd yn gweithio er budd cwsmeriaid mewn marchnadoedd cyfathrebiadau.**

Mae'r marchnadoedd hyn yn cynnig llawer o ddewis i gwsmeriaid, ond gall yr opsiynau fod yn gymhleth ac yn anodd eu llywio. Gallai chwilio am fargen newydd godi ofn ar bobl neu fod yn ormod o ymdrech. Gallai galluogi pobl i rannu eu data wrth glicio botwm wneud y broses hon yn gyflymach, yn haws ac yn fwy effeithiol, gan helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i gynnyrch mwy addas ar gyfer eu hanghenion.

Yn 2019, roedd Adolygiad Data Clyfar Llywodraeth y DU yn cynnig cyflwyno cynlluniau 'data clyfar' ar draws sectorau rheoledig drwy ddeddfwriaeth.

## **Beth rydym yn ei ystyried:**

Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn edrych ar yr achos dros Gyfathrebu Agored - menter ar gyfer y marchnadoedd telegyfathrebiadau manwerthu a theledu drwy dalu, a fyddai'n galluogi pobl a busnesau bach i ddweud wrth eu darparwr cyfathrebiadau i rannu gwybodaeth am eu gwasanaethau, yn hawdd ac yn ddiogel, â thrydydd partïon o'u dewis. Rydym yn edrych ar yr hyn y gallai menter Cyfathrebu Agored ei gyflawni ar gyfer pobl a busnesau a sut y gallai weithio.

Gallai pobl a busnesau ddewis rhannu data – er enghraifft, pa gynnyrch maen nhw'n eu defnyddio, y pris maen nhw'n ei dalu a faint o ddata maen nhw'n ei ddefnyddio – â safleoedd cymharu neu ddarparwyr eraill, i gael argymhellion am y cynnyrch gorau ar gyfer eu hanghenion. Gallai trydydd partïon hefyd ddylunio ac adeiladu gwasanaethau newydd arloesol sy'n defnyddio data Cyfathrebu Agored. Gallai'r gwasanaethau hyn ddiwallu'r galw nad yw'n cael sylw ar hyn o bryd.

Byddai Cyfathrebu Agored hefyd yn golygu ei bod yn rhaid i ddarparwyr cyfathrebiadau rannu data mwy cyflawn a chywir am eu hamrywiaeth o gynnyrch a sut maent yn perfformio.

Rydym yn ymgynghori ynghylch ein syniadau cychwynnol i ddeall defnydd a manteision posibl Cyfathrebu Agored yn well, sut y byddai'n gweithio orau i bobl ac i fusnesau a'r costau cysylltiedig. Byddem yn gweithio i sicrhau bod gofynion unrhyw reoleiddio yn y dyfodol i weithredu Cyfathrebu Agored yn gymesur â'r manteision.

Er mwyn i bobl ac i fusnesau ymddiried mewn gwasanaethau sy'n defnyddio Cyfathrebu Agored, mae'n hanfodol bod data'n cael ei rannu'n ddiogel. Rhaid iddynt fod â rheolaeth dros y data maent yn ei rannu a sut y caiff ei ddefnyddio.

## **Y camau nesaf**

Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod hanner cyntaf 2021, yn nodi'r hyn rydym wedi'i ddysgu a sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen. Mater i'r Llywodraeth fydd ystyried a ddylid cyflwyno deddfwriaeth i alluogi gweithredu Cyfathrebu Agored. Gallai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn helpu

i lywio unrhyw gyngor technegol gan Ofcom i'r Llywodraeth i gefnogi datblygiad Cyfathrebu Agored yn y dyfodol.

**Ffigur 1: Cyfathrebu Agored yn gryno**



## **Gall rhai o nodweddion allweddol dyluniad Cyfathrebu Agored yn y dyfodol fod yn allweddol i'w lwyddiant**

### **Byddai data am gwsmeriaid yn cael ei rannu'n ddiogel ac yn gyflym**

Byddai angen i ddarparwyr rannu data cwsmeriaid preswyl a busnesau bach â thrydydd parti gan ddefnyddio dulliau diogel. Dylai'r broses o rannu data â thrydydd parti fod mor gyflym a hawdd â phosibl i gwsmeriaid, yn ogystal â bod yn ddiogel.

### **Rhaid i ddefnyddwyr gael rheolaeth dros y data maent yn ei rannu**

Rhaid i ddefnyddwyr allu deall pa wybodaeth maent yn ei rhannu, â phwy maent yn ei rhannu, ac at ba ddibenion. Rhaid iddynt roi eu caniatâd i rannu eu data.

### **Byddai'n rhaid i ddarparwyr rannu data am gynnyrch â thrydydd parti**

Gallai mynnu bod darparwyr yn rhannu mwy o ddata am gynnyrch sicrhau bod trydydd parti fel offer cymharu digidol yn gallu cael gafael ar ddata cywir am yr opsiynau sydd ar gael yn y farchnad a'u bod yn gallu gwneud argymhellion dibynadwy i ddefnyddwyr.

Ein barn gychwynol yw y byddai angen safoni data gan wahanol ddarparwyr yn ddigonol er mwyn galluogi trydydd parti i'w brosesu a helpu cwsmeriaid i gymharu cynnyrch tebyg am debyg. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai safoni fod yn broses gymhleth a chostus.

### **Byddai unrhyw drydydd parti achrededig, gan gynnwys darparwyr cyfathrebiadau, yn gallu cael gafael ar ddata cwsmeriaid ar eu cais**

Byddai angen achredu cwmnïau sy'n dymuno cael gafael ar ddata o dan Gyfathrebu Agored. Byddai achrediad yn golygu bod yn rhaid iddynt gofrestru a dilyn rheolau ac arweiniad yng nghyswllt, er enghraifft, sut maent yn cael caniatâd defnyddiwr i rannu data. Gallai trydydd parti achrededig

wedyn ofyn am ganiatâd pobl i gael gafael ar ddata amdanynt gan eu darparwr, gan gynnwys darparwyr cyfathrebiadau eraill.